

CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 11 Gorffennaf 2016.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Croesawyd Dewi Thomas yn ôl yn dilyn llawdriniaeth ynghyd ag estyn dymuniadau gorau iddo am wellhad.

Roedd tri chynrychiolydd o gwmmi RES yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth am fwriad posibl i godi melinau gwynt ar dir Brynlllywelyn, Nant-y-caws ac Esgair-garn.

Roedd posiblwydd o godi 8 neu 9 o felinau gwynt ar y safleoedd hyn, yn ogystal â 5 bocs storio batris ryw 40 troedfedd yr un o ran hyd.

Holwyd cwestyniau ar y pynciau canlynol gan y cynghorwyr:

1. Gosod llinellau trydan dan ddaear yn hytrach nag ar draws gwlad ar bolion.
2. Uchder y melinau gwynt.
3. Dyfnder y seiliau ar gyfer y twrbinau.
4. Y Ffordd Fynediad dros dir comin i'r safle.
5. Pam mynd ati i herio dyfarniad Adroddiad yr Arolygwr.
6. Pam oedd canfyddiad a diffiniad RES o ffiniau'r tir a adwaenir fel Mynydd Llanllwni mor wahanol i ganfyddiad y gymuned leol.
7. Sefydlu Cronfa Gymunedol.

Niwlog a chwbl anfoddhaol oedd atebion cynrychiolwyr y cwmni i bob un o'r cwestyniau uchod yn y cyfarfod. Heb fanylion pendant i'w hystyried amheuwyd a ellid ystyried y cyfarfod yn ymgynghoriad go iawn. Mae'n sicr nad oedd modd datgan barn gytbwys am briodoldeb neu ddiffyg priodoldeb unrhyw gynllun ar sail y cyflwyniad a wnaed gan gynrychiolwyr y cwmni ar y noson. Ond roedd y cynghorwyr yn awyddus iawn i gael atebion gan y cwmni i'r cwestyniau oedd wedi codi ac i bori dros unrhyw gynlluniau a fyddai'n cael eu rhoi gerbron gan RES yn eu ffurf derfynol. Addawodd y tri chynrychiolydd o RES i ddarparu atebion a chynlluniau cyflawn erbyn cyfarfod mis Medi.

Ymadawodd cynrychiolwyr RES ac aeth y cyfarfod o'r cyngor yn ei flaen.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies.

Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Roedd y gwaith o lanhau'r matiau diogelwch ar y cae wedi'i gwblhau.

TOILEDAU

Roedd y toiledau wedi cyrraedd y Cae Chwarae er 02 Mehefin 2016.

GWEFAN LLANLLWNI

Roedd adroddiad o gyfarfod mis Mai ar y wefan.

HYFFORDDIANT I GYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

Roedd dau gynghorydd wedi mynychu sesiwn hyfforddi ar 16 Mehefin 2016, a'r ddau ohonynt yn fodlon bod arfer dda Cyngor Bro Llanllwni yn gymeradwy.

PARCIO GWRTHGYMDEITHASOL GER CELTIC CLASSICS

Ceir yn parcio ar y palmant.

Roedd y clerc wedi cysylltu â Swyddog Diogelwch y Cyngor Sir ynglŷn ag anhawster gweledol a oedd yn cael ei achosi i fodurwyr wrth iddynt droi i'r ffordd fawr o hewl Pantllyn a Parklane, ac yn awgrymu gosod llinellau melyn. Roedd y clerc wedi danfon lluniau o geir yn parcio ar y palmant ac wedi derbyn ymateb bod y mater yn cael ei drafod gan John McEvoy.

Byddai Linda Evans yn cysylltu â'r Cyngor Sir eto am ragor o wybodaeth. Penderfynwyd bod y clerc yn cysylltu â Chomisynydd yr Heddlu i holi pam oedd yr heddlu mor gyndyn i weithredu er bod y cynghorwyr wedi trafod y mater droeon gyda'r heddlu lleol. Byddai croeso i'r Comisiynydd ddod i gyfarfod o'r Cyngor Bro i drafod y mater ymhellach.

SBWRIEL YN Y PENTREF

Roedd llawer o sbwriel o amgylch y pentref ger Erwlon, Maespwll–Aberceiliog, Waunfawr–Bryn.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.